As required by the Welsh Language (Wales) Measure 2011, the Commissioner has an Advisory Panel. The Advisory Panel was appointed by Welsh Ministers on 17 April 2012 for a period of 3 years until 31 March 2015. The Commissioner can consult with the Advisory Panel on any matter. The terms of reference of the Advisory Panel was reviewed in April 2013. A copy of the remit of the Advisory Panel can be found on the Commissioner's website.

Roedd aelodaeth y Panel Cyngori, a'u presenoldeb fel a ganlyn:

	14 Mai 2013	8 Gorffennaf 2013	11 Tachwedd 2013	14 Mawrth 2014
Dr Ian Rees (Cadeirydd)	✓	✓	✓	✓
Virginia Isaac	✗	✓	✗	—
Gareth Jones	✓	✓	✓	✓
Yr Athro Gwynedd Parry	✓	✓	✓	✓

100

Ymddiswyddodd Virginia Isaac ym mis Ionawr 2014. Mae Gweinidogion Cymru wedi cychwyn ar y broses o benodi aelod newydd.

Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol (adran 17–20, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993)

Sefydlwyd Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol Comisiynydd y Gymraeg ym mis Mehefin 2012. Y Comisiynydd a'r cyfarwyddwyr sy'n eistedd ar y Panel ac maent wedi bod yn cwrdd yn fisol. Yn ystod 2013–14 cynhaliodd y Panel 21 cyfarfod. Roedd 13 o'r cyfarfodydd hynny'n gyfarfodydd rheolaidd ac 8 ohonynt yn gyfarfodydd wedi eu trefnu ar frys er mwyn rhoi sylw i faterion penodol.

Mae'r Panel yn sicrhau bod cynlluniau iaith yn cael eu gweithredu'n well drwy lunio argymhellion i adroddiadau statudol dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a fydd yn gwella ystod neu ansawdd gwasanaethau Gymraeg a dwyieithog.

Yn ystod 2013–14 agorwyd 3 ymchwiliad statudol dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 gan y Comisiynydd. Cynhaliwyd ymchwiliadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, lluniwyd adroddiadau ac argymhellion i'r sefydliadau gan y Panel a chyhoeddwyd yr adroddiadau hyn ar wefan y Comisiynydd. Agorodd y Comisiynydd ymchwiliad i Ofcom dan adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ond yn dilyn sicrwydd gan y sefydliad ei fod yn cydymffurfio ag ysbryd y cynllun, penderfynwyd terfynu'r ymchwiliad.

Mae'r Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol hefyd yn ystyried cwynion am y defnydd o'r Gymraeg, neu ddiffyg defnydd o'r Gymraeg, gan sefydliadau eraill yn y sector preifat, y trydydd sector a chan gyrff y goron.

Bydd Panel Cwynion ac Ymchwiliadau Statudol Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn ystyried ac yn rhoi arweiniad ar Ran 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mewn perthynas â chwynion i'r Comisiynydd am ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ystod 2013–14 agorwyd un ymchwiliad i ymyrraeth honedig dan adran 115 y Mesur.

The members of the Advisory Panel and their attendance was as follows:

	14 May 2013	8 July 2013	11 November 2013	14 March 2014
Dr Ian Rees (Chair)	✓	✓	✓	✓
Virginia Isaac	✗	✓	✗	—
Gareth Jones	✓	✓	✓	✓
Prof Gwynedd Parry	✓	✓	✓	✓

101

In January 2014, Virginia Isaac, resigned. Welsh Ministers have commenced the process of appointing a new member.

Statutory Investigations and Complaints Panel (section 17–20, Welsh Language Act 1993)

The Welsh Language Commissioner's Statutory Investigations and Complaints Panel was established in June 2012. The Commissioner, and the directors sit on the Panel which has been meeting monthly. During 2013–14 the Panel held 21 meetings. 13 of those were regular meetings and 8 were meetings arranged at short notice to attend to specific matters.

The Panel ensures better operation of language schemes by making recommendations, to statutory reports under the Welsh Language Act 1993, that will improve the range and quality of Welsh language and bilingual services.

During 2013–14 3 statutory investigations under section 17 of the Welsh Language Act 1993 were opened by the Commissioner. Investigations were conducted into Torfaen County Borough Council and National Savings & Investments, the Panel drew up reports and recommendations to the organizations and the reports were published on the Commissioner's website. The Commissioner opened an investigation under section 17 of the Welsh Language Act 1993 into Ofcom, but following assurances from the organizations that it complied with the spirit of the scheme it was decided to discontinue the investigation.

The Statutory Investigations and Complaints Panel also considers complaints about the use of, or failure to use the Welsh language, by other bodies in the private sector, third sector and by Crown bodies.

The Statutory Investigations and Complaints Panel will also consider and provide guidance on Part 6 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, in relation to complaints to the Commissioner about the interference with the freedom of an individual to use the Welsh language. During 2013–14 one investigation was opened into an alleged interference under section 115 of the Measure.

Gweithio'n gyfochrog ag Ombwdsmyrn a Chomisiynywyr

Mae Adran 20 a 21 y Mesur yn amlinellu i ba raddau y gall Comisiynydd y Gymraeg weithio'n gyfochrog ag ombwdsmyrn a chomisiynywyr. Yn y Mesur fe enwir y sefydliadau canlynol fel rhai gall y Comisiynydd weithio'n gyfochrog â hwy: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; Comisiynydd Plant Cymru; a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Cytunwyd ar Femorandwm Cydweithio gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Femorandwm Cydweithio â Chomisiynydd Plant Cymru.

Yn dilyn ymateb y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gais Comisiynydd y Gymraeg i ddechrau trafodaethau am lunio Memorandwm Cydweithio, nododd y Comisiwn nad oedd yn ystyried bod dogfen o'r fath yn cyflawni'r amcan o adeiladu perthynas weithio gadarn, ac ymddiriedaeth fel sail i gydweithio effeithiol. Serch hynny, mae modd i swyddogion y Comisiynydd gysylltu â swyddogion y Comisiwn i drafod materion penodol o gydweithio.

4. Y gallu i ymdrin â risg

Mae'r system rheoli risg yn cael ei harwain gan y Tîm Rheoli ac mae'n cael ei hardystio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae aelod o'r Tîm Rheoli wedi ei enwi fel Rheolwr Risg y sefydliad. Cynhaliwyd hyfforddiant sefydlu ar ymwybyddiaeth risg ar gyfer swyddogion newydd yn ystod 2013–14. Bydd hyfforddiant ar gyfer yr holl swyddogion yn cael ei gynnal bob 3 blynedd.

5. Y fframwaith risg a rheoli

Cynhelir asesiad ffurfiol o'r risgiau a'r gofrestr risg, a arweinir gan y Rheolwr Risg o leiaf bob chwe mis. Caiff y gofrestr risg ei rhannu yn risgiau strategol a risgiau gweithredol. Yn ogystal mae yna 5 is-gofrestr risg yn cofnodi risgiau mewn meysydd penodol.

Adolygwyd y gofrestr gan y Tîm Rheoli ym mis Gorffennaf 2013 ac ym mis Chwefror 2014 a chan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Medi 2013 a mis Mawrth 2014.

Caiff risgiau perthnasol eu nodi ym mhob papur a gyflwynir i'r Tîm Rheoli. Mae hynny yn ei dro yn atgoffa swyddogion i adnabod a rheoli'r risgiau.

6. Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Yn ystod y flwyddyn ariannol, ni adroddwyd unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â data personol. Mae'r Comisiynydd yn cynnal polisi a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth.

Working with Ombudsmen and Commissioners

Sections 20 and 21 of the Measure outline the degrees to which the Welsh Language Commissioner can work with ombudsmen and commissioners. The Measure names the following organizations as some that the Commissioner can work with: Public Services Ombudsman for Wales; Older People's Commissioner for Wales; Children's Commissioner for Wales; Equalities and Human Rights Commission. A Memorandum of Understanding has been agreed with the Public Services Ombudsman for Wales and the Older People's Commissioner for Wales. Work is progressing on a Memorandum of Understanding with the Children's Commissioner for Wales.

103

Following the response by the Equalities and Human Rights Commission to the Welsh Language Commissioner's request to commence discussions to draw up a Memorandum of Understanding, the Commission noted that it did not consider that such a document achieved the objective of building a strong working relationship and trust as a basis for effective cooperation. Despite this there is a means for the Commissioner's officers to contact the staff at the Commission to discuss specific matters of cooperation.

4. Capacity to handle risk

The risk management system is led by the Management Team and endorsed by the Audit and Risk Committee. A member of the Management Team is named as Risk Manager for the organization. Induction training on risk awareness was held for new officers during 2013–14. Training for all officers will be held every 3 years.

5. The risk and control framework

A formal assessment of the risks and the risk register, lead by the Risk Manager, is undertaken at least every six months. The risk register is divided into strategic risks and operational risks. In addition there are 5 sub-registers recording risks in specific areas.

The risk register was reviewed by the Management Team in July 2013 and February 2014 and by the Audit and Risk Committee in September 2013 and March 2014.

Relevant risks are included in every paper that is presented to the Management Team and therefore reminds officers to identify and manage the risks.

6. Incidents relating to personal data

During the financial year, no incidents were reported relating to personal data. The Commissioner maintains a policy and procedures relating to information security.

7. Adolygiad effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system ddiogel o reolaeth fewnol. Dylanwadir ar fy nhrosolwg o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol gan waith yr archwilyr mewnol a'r Tîm Rheoli o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y system reolaeth fewnol, a chan sylwadau a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheolaeth ac mewn adroddiadau eraill. Cefais fy nghynghori ynghylch arwyddocâd canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd system reolaeth fewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Rheolwr Risg, ac mae cynllun i gywiro gwendidau ac i sicrhau gwelliant parhaol i'r system yn ei le.

Mae'r archwilyr mewnol, PricewaterhouseCoopers, wedi datgan barn eu bod yn gallu rhoi lefel uchel o sicrwydd dros ein rheolaeth ariannol fewnol.

8. Heriau sylweddol i reolaeth fewnol

Dyma ail flwyddyn Comisiynydd y Gymraeg ac felly mae gwaith parhaus o adolygu a gwella systemau a phrosesau rheolaeth fewnol ar waith. Mae fframwaith llywodraethu wedi ei sefydlu a chafodd ei effeithiolrwydd ei asesu gan waith archwilio mewnol.

Un o'r heriau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r sefydliad yw gweithredu fel corfforaeth undyn annibynnol gan ystyried bod y sefydliad yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Hysbyswyd Comisiynydd y Gymraeg gan Lywodraeth Cymru ar 16 Hydref 2013 y byddai toriad o 10% i gyllideb y Comisiynydd yn 2014–15. Mynegwyd pryder gan nad oedd y Comisiynydd wedi derbyn eglurhad o sail y penderfyniad nac unrhyw raghysbysiad o hynny. Gosododd Llywodraeth Cymru gyllideb ddrافت gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Hydref 2013 a nodwyd y byddai'r iaith Gymraeg yn derbyn toriad o 2.8% am 2014–15 a 3.6% am 2015–16. Felly o'r £700,000 o doriad, mae £410,000 yn dod o gyllideb y Comisiynydd. Caiff y toriad hwn o 10% ei ystyried yn faich afresymol ar un sefydliad gan ystyried setliad sefydliadau eraill. Wrth dderbyn bod angen i bob sefydliad rannu'r baich o doriadau, mae yna ddyletswyddau/swyddogaethau ychwanegol ar Gomisiynydd y Gymraeg o 2014 ymlaen. Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg (SACC) yn gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) i Weinidogion Cymru'n flynyddol. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2013 yn enwi Comisiynydd y Gymraeg fel corfforaeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â hi mewn cysylltiad â chynlluniau addysg Gymraeg. Disgwylir i'r CSGA gael eu cyflwyno i'r Llywodraeth erbyn 1 Ebrill 2014.

Pan sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill 2012 etifeddwyd strwythur a gytunwyd arno rhwng swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Wrth i'r sefydliad ddatblygu ac wrth i bwerau statudol newydd ddod i rym, cred y Comisiynydd bod angen adolygu'r strwythur gwreiddiol, gan greu strwythur sydd yn fwy addas ar gyfer ymateb i swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Bydd y strwythur newydd hefyd yn caniatáu i'r Comisiynydd ymateb i'r toriad cyllideb.

7. Review of effectiveness

As Accounting Officer, I have responsibility for maintaining a sound system of internal control. My review of the effectiveness of the system of internal control is informed by the work of the internal auditors and the Management Team within the organization who have responsibility for the development and maintenance of the internal control system, and comments made by the Auditor General for Wales in his management letter and other reports. I have been advised on the implications of the result of my review of the effectiveness of the system of internal control by the Audit and Risk Committee and the Risk Manager, and a plan to address weaknesses and ensure continuous improvement of the system is in place.

The opinion of the internal auditors, PricewaterhouseCoopers, states that they are able to give a high level of assurance for our internal financial control.

8. Significant internal control challenges

This is the Welsh Language Commissioner's second year therefore continuous work to review and improve systems and internal control processes is in progress. A governance framework has been established and its effectiveness was assessed by the internal audit review.

One of the most significant challenges facing the organization is operating as an independent corporation sole, considering that the organization receives its funding directly from the Welsh Government.

On 16 October 2013 the Welsh Government advised the Welsh Language Commissioner of a 10% cut to the Commissioner's budget for 2014–15. Concern was expressed that the Commissioner had not received an explanation or prior notification of the basis of the decision. The Welsh Government laid its draft budget before the National Assembly of Wales on 8 October 2013 which noted that the Welsh language would receive a budget cut of 2.8% for 2014–15 and 3.6% for 2015–16. Of the £700,000 budget cut, £410,000 relates to the Commissioner's budget. This budget cut of 10% appears to be an unreasonable burden for one organization considering the settlement for other organizations. Accepting the need for every organization to share the burden of cuts, the Welsh Language Commissioner has additional duties/functions from 2014 onwards. The Welsh-medium Education Strategy (WMES) requires local authorities to present Welsh in Education Strategic Plans (WESP) to Welsh Ministers annually. The Welsh in Education Strategic Plans (Wales) Regulations 2013 names the Welsh Language Commissioner as a body that the local authorities must consult with in relation to Welsh-medium education plans. The WESP are expected to be presented to the Government by 1 April 2014.

When the Welsh Language Commissioner was established on 1 April 2012 it inherited a structure agreed between officials of the Welsh Language Board and the Welsh Government. As the organization develops and as new statutory powers come into force, the Commissioner considers that a review of the original structure is required, creating a structure that is more suitable for responding to the Welsh Language Commissioner's functions under the Welsh Language (Wales) Measure 2011. The new structure will also allow the Commissioner to respond to the budget cut.

Rhwng 16 Ebrill a 15 Mai 2014 cynhaliwyd ymgynghoriad â swyddogion y Comisiynydd ar y strwythur arfaethedig. Bu hefyd cydweithio agos rhwng y Comisiynydd a'r Undeb yn ystod y cyfnod hwn. Er mwyn cynorthwyo'r Comisiynydd â'r broses hon, defnyddiwyd ymgynghorydd adnoddau dynol annibynnol.

Cyn bwrw ymlaen â'r cynllun ailstrwythuro yn dilyn trafodaeth â'r Undeb cyhoeddodd y Comisiynydd gynllun ymadael gwirfoddol er mwyn galluogi'r rheini oedd yn dymuno gadael cyflogaeth Comisiynydd y Gymraeg i wneud hynny lle bo'n ymarferol bosibl. Bu'r ymgynghorydd hefyd yn cynghori ac yn cynorthwyo'r Comisiynydd â'r cynllun hwn. Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau ychwanegol i swyddogion y tu allan i'r cynllun hwn.

Mae'r ail flwyddyn wedi bod yn gyfnod o symud tuag at weithredu rhannau 4 a 5 o'r Mesur, sydd yn arwain at y gwaith o baratoi at yr Ymchwiliadau Safonau. Dechreuwyd ar gylch 1 yr Ymchwiliadau Safonau ar 27 Ionawr 2014, gyda chwech ar hugain o sefydliadau gan gynnwys 22 Cyngor Sir a Chyngor Bwrdeistref Sirol Cymru, 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru. Adroddir ymhellach ar y gwaith hwn o dan Amcan Strategol 3.

Mae rheoli a gwarchod data yn parhau fel mater penodol o risg ar y gofrestr. Gosodwyd trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod y Comisiynydd yn delio â hyn yn effeithiol ac mae swyddog wedi ei benodi i fod â chyfrifoldeb dros sicrhau cydymffurfiaeth yn y maes hwn. Diweddarwyd y canllawiau diogelu data ac mae hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion.

Mae rheoli disgwyliadau'r cyhoedd o sefydliad fel Comisiynydd y Gymraeg wedi ei adnabod fel mater penodol o risg. Adolygwyd y gofrestr risg gan ystyried i risg hon ac mae'r cynllun cyfathrebu allanol a gymeradwywyd gan y Tîm Rheoli, yn weithredol. Adolygodd y Tîm Rheoli'r cynllun hwn ym mis Mawrth 2014.

Yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, caiff y Comisiynydd ddarparu cymorth i unigolion mewn achosion cyfreithiol sy'n berthnasol i fater mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef. Bydd y gwaith o lunio polisi ar hyn yn cael ei gyflawni ddechrau 2014–15.

Etifeddwyd 3 grant; arferai'r sefydliadau hyn dderbyn cyllid gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cymeradwywyd y grantiau hyn ar gyfer 2012–13 gan Weinidogion Cymru. Erbyn hyn, dim ond un sefydliad sy'n derbyn grant, sef Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Cytunwyd ar dargedau â'r sefydliad a chaiff y rheini eu monitro bob chwarter.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth y Comisiynydd gais am adolygiad barnwrol o benderfyniad Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, un o adrannau Trysorlys EM, i ddiddymu ei gynllun iaith Gymraeg. Cynhaliwyd gwrandawriad ar 19 Chwefror 2014 yn yr Uchel Lys Barn yng Nghaerdydd parthed cais Comisiynydd y Gymraeg am Adolygiad Barnwrol o benderfyniad Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, gyda Gweinidogion Cymru fel parti â diddordeb. Dyfarnwyd yr achos ar 6 Mawrth 2014. Gorchymynnwyd bod cynllun iaith y Diffynnydd yn aros mewn grym oni bai ac hyd nes y bydd y Diffynnydd yn penderfynu ei newid, ar ôl proses sy'n gyfreithlon o dan delerau dyfarniad 6 Mawrth 2014. Bydd y Diffynnydd yn talu costau hawliad yr Hawlydd yn amodol ar asesiad manwl ar sail safonol os na cheir cytundeb. Bu paratoi deunydd a chanfod y ddogfennaeth gywir er mwyn cynnal yr achos yn brawf o brosesau a gweithdrefnau mewnol y Comisiynydd o gadw cofnodion.

From 16 April to 15 May 2014 a consultation was held with officers of the Commissioner on the proposed structure. There was also close collaboration between the Commissioner and the Union during this period. To assist the Commissioner in this process, an independent human resources consultant was engaged.

Before proceeding with the restructuring plan, following discussion with the Union the Commissioner announced a voluntary exit scheme to enable those who wished to leave the employment of the Welsh Language Commissioner to do so wherever practicable. The consultant also advised and assisted the Commissioner with this scheme. There were no additional payments to officers outside the scheme.

The second year has been a period of moving towards implementing part 4 and 5 of the Measure, which will lead to the work of preparing for the Standards Investigations. The first round of Standards Investigations commenced on 27 January 2014, with twenty six organizations including 22 Welsh County and County Borough Councils, 3 Welsh National Park Authorities and Welsh Ministers. Further information can be found under Strategic Objective 3.

Management and security of data continues as a specific risk on the register. Arrangements have been put in place to ensure that we deal with this effectively and an officer has been appointed to have responsibility for ensuring compliance in this area. Data protection guidelines have been updated and training has been provided to officers.

Managing the public's expectations of an organization like the Welsh Language Commissioner has been identified as a specific risk. Considering this the risk register was reviewed and an external communication plan, approved by the Management Team is in operation. The Management team reviewed this plan in March 2014.

As laid down in the Welsh Language (Wales) Measure 2011, the Commissioner may provide individuals with assistance for legal proceedings that are relevant to a matter in respect of which the Commissioner has a function. Work to draw up a policy on this will be completed early in 2014–15.

Three grants were inherited, where organizations used to receive funding from the Welsh Language Board. These grants were approved by Welsh Ministers in respect of 2012–13. Currently, only one organization is in receipt of a grant, being Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (the Association of Welsh Translators and Interpreters). Targets were agreed with the organization, which have been monitored each quarter.

During the year the Commissioner made an application for a judicial review of the decision of one of HM Treasury's departments, National Savings & Investments to withdraw its Welsh language scheme. On 19 February 2014, a hearing was held in the High Court of Justice in Cardiff regarding an application by the Welsh Language Commissioner for a Judicial Review of the decision of National Savings & Investments, with Welsh Ministers as an interested party. The case was adjudicated on 6 March 2014. It was ordered that the language scheme of the Defendant shall remain in force unless and until the Defendant decides to change it, after a process which is legal under the terms of the 6 March 2014 adjudication. The Defendant shall pay the Claimant's costs subject to a detailed assessment on a standard basis if there is no agreement. Preparing material and finding the proper documentation to support the claim proved the Commissioner's internal processes and procedures of record keeping.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd tri sesiwn hyfforddi i holl swyddogion y Comisiynydd. Roedd seminar mis Mehefin yn canolbwyntio ar ddulliau cyfathrebu effeithiol gyda hyfforddwr allanol. Ym mis Hydref cafwyd cyflwyniad gan Seán O Cuirreáin, An Coimisinéir Teanga (Comisiynydd Iaith Iwerddon), fforwm trafod mewnol ar weithdrefn cwynion y Comisiynydd a chyflwyniad gan un o swyddogion y Comisiynydd ar ddulliau o adnabod ac asesu cyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi. Ym mis Mawrth 2014, canolbwyntiwyd ar yr ymchwiliadau safonau a'r adolygiad barnwrol. Mae cynllun cyfathrebu mewnol mewn lle a bu'n destun archwiliad mewnol yn 2013. Gwnaethpwyd argymhellion gan yr archwilyr mewnol ar ddulliau rhaeadru gwybodaeth a hefyd dulliau o fonitro hynny. Adolygwyd y cynllun hwn gan y Tîm Rheoli ym mis Mawrth 2014.

Meri Huws

Swyddog Cyfrifyddu
Comisiynydd y Gymraeg

9 Gorffennaf 2014

During the year three training sessions were held for all the Commissioner's officers. The seminar in June focused on effective communications, with an external trainer. In October there was a presentation by Seán O Cuirreáin, An Coimisinéir Teanga (Language Commissioner for Ireland), an internal discussion forum on the Commissioner's complaints procedure and a presentation by one of the Commissioner's officers on methods to identify and assess opportunities to influence policy. In March 2014, the focus was on the standards investigations and the judicial review. An internal communications plan is in place, which was subject to an internal audit review in 2013. Recommendations were made by the internal auditors on methods for disseminating information and methods of monitoring this. This plan was reviewed by the Management Team during March 2014.

Meri Huws

Accounting Officer
Welsh Language Commissioner

9 July 2014

Adroddiad archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, archwilydd penodedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd y Gymraeg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi ei harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

110

Priod gyfrifoldebau'r Comisiynydd a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r Cyfrifon Blyneddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth ddigonol o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: p'un ai a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Comisiynydd y Gymraeg a ph'un ai a ydynt wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb unrhyw amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Sylwadaeth y Rheolwyr er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2014 a'i wariant net, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig, a'r llofoedd arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Audit report of the Auditor General for Wales, appointed Auditor to the National Assembly for Wales

I certify that I have audited the financial statements of the Welsh Language Commissioner for the year ended 31 March 2014 under the Welsh Language (Wales) Measure 2011. These comprise the Statement of Comprehensive Net Expenditure, Statement of Financial Position, Cash Flow Statement and Statement of Changes in Tax Payers Equity and related notes. These financial statements have been prepared under the accounting policies set out within them. I have also audited the information in the Remuneration Report that is described in that report as having been audited.

111

Respective responsibilities of the Commissioner and auditor

As explained more fully in the Statement of Accounting Officer Responsibilities, the Accounting Officer is responsible for preparing the Annual Accounts, which includes the Remuneration Report and the financial statements, in accordance with the Government of Wales Act 2006 and Welsh Ministers' directions made there under and for ensuring the regularity of financial transactions.

My responsibility is to audit the financial statements and the part of the remuneration report to be audited in accordance with applicable law and with International Standards on Auditing (UK and Ireland). These standards require me to comply with the Auditing Practice Board's Ethical Standards for Auditors.

Scope of the audit of the financial statements

An audit involves obtaining evidence about the amounts and disclosures in the financial statements sufficient to give reasonable assurance that the financial statements are free from material misstatement, whether caused by fraud or error. This includes an assessment of: whether the accounting policies are appropriate to the Welsh Language Commissioner's circumstances and have been consistently applied and adequately disclosed; the reasonableness of significant accounting estimates made by the Welsh Language Commissioner; and the overall presentation of the financial statements.

In addition, I am required to obtain evidence sufficient to give reasonable assurance that the expenditure and income have been applied to the purposes intended by the National Assembly for Wales and the financial transactions conform to the authorities which govern them.

In addition, I read all the financial and non-financial information in the Management Commentary to identify material inconsistencies with the audited financial statements. If I become aware of any apparent material misstatements or inconsistencies I consider the implications for my report.

Opinion on Financial Statements

In my opinion the financial statements:

- give a true and fair view of the state of the Welsh Language Commissioner's affairs as at 31 March 2014 and of its net expenditure, recognised gains and losses and cash flows for the year then ended; and
 - have been properly prepared in accordance with Welsh Ministers' directions issued under the Welsh Language (Wales) Measure 2011.
-

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth i'w harchwilio wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011; ac
- mae'r wybodaeth ariannol, sydd wedi ei chynnwys yn y 'Crynodeb ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol' a'r rhan o'r 'Adroddiad ar Gydabyddiaeth' nas archwiliwyd, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

15 Gorffennaf 2014

Cyfrifoldeb y Comisiynydd yw i gynnal a chadw a sicrhau uniondeb gwefan Comisiynydd y Gymraeg; nid yw gwaith sydd yn cael ei gynnal gan yr archwilydd yn ymwneud ag ystyried y materion hyn, ac o ganlyniad, nid yw'r archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol cryno ers cael eu cyhoeddi gyntaf ar y wefan.

Opinion on Regularity

In my opinion, in all material respects, the expenditure and income have been applied to the purposes intended by the National Assembly for Wales and the financial transactions conform to the authorities which govern them.

Opinion on other matters

In my opinion:

- the part of the Remuneration Report to be audited has been properly prepared in accordance with HM Treasury and Welsh Ministers' directions made under the Welsh Language (Wales) Measure 2011; and
- the information which comprises financial information, contained within the 'Financial, social and environmental summary' and the unaudited part of the 'Remuneration Report', is consistent with the financial statements.

Matters on which I report by exception

I have nothing to report in respect of the following matters which I report to you if, in my opinion:

- the Annual Governance Statement does not reflect compliance with HM Treasury guidance;
- proper accounting records have not been kept;
- information specified by HM Treasury regarding the remuneration and other transactions is not disclosed; or
- I have not received all of the information and explanations I require for my audit.

Report

I have no observations to make on these financial statements.

Huw Vaughan Thomas

Auditor General for Wales
24 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9LJ

15 July 2014

The maintenance and integrity of the Welsh Language Commissioner's website is the responsibility of the Commissioner; the work carried out by the auditors does not involve consideration of these matters and accordingly the auditors accept no responsibility for any changes that may have occurred to the summary financial statements since they were initially presented on the website.

**Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr
am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014**

114

	Nodiadau	2013–14 £000	2012–13 £000
Gwariant			
Grantiau	3	88	181
Gwariant rhaglenni eraill	6	402	164
Costau swyddogion	4	2,803	2,098
Gweinyddu	5	969	1,043
Dibrisiant ac amorteiddiad	7, 8	85	84
		4,347	3,570
Incwm		—	—
Gwariant net		4,347	3,570
Llog a dderbyniwyd		(4)	(5)
Gwariant net ar ôl llog		4,343	3,565

Mae'r holl weithgareddau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 122 i 153 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Statement of Comprehensive Net Expenditure
for the year ended 31 March 2014**

115

	Notes	2013–14 £000	2012–13 £000
Expenditure			
Grants	3	88	181
Other programme expenditure	6	402	164
Officers' costs	4	2,803	2,098
Administration	5	969	1,043
Depreciation and amortisation	7, 8	85	84
		4,347	3,570
Income		—	—
Net expenditure		4,347	3,570
Interest receivable		(4)	(5)
Net expenditure after interest		4,343	3,565

All activities undertaken during the year are continuing.

The notes on pages 122 to 153 form part of these accounts.

Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2014

116

	Nodiadau	31 Mawrth 2014		31 Mawrth 2013	
		£000	£000	£000	£000
Asedau nad ydynt yn gyfredol					
Asedau anghyfyrrddadwy	7	69		60	
Eiddo, offer a pheiriannau	8	117		172	
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol			186		232
Asedau cyfredol					
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	9	128		147	
Arian parod ac arian cywerth	10	1,080		834	
Cyfanswm asedau cyfredol			1,208		981
Cyfanswm asedau			1,394		1,213
Rhwymedigaethau cyfredol					
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	11	(168)		(192)	
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol			(168)		(192)
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net			1,226		1,021
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol					
Darpariaethau	12	(615)		(167)	
Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol			(615)		(167)
Asedau llai rhwymedigaethau			611		854
Ecwiti'r trethdalwyr					
Cronfa gyffredinol			611		854
			611		854

Mae'r nodiadau ar dudalennau 122 i 153 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae'r datganiadau ariannol ar dudalennau 114 i 121 wedi eu cymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifyddu ac wedi ei awdurdodi gan:

Meri Huws

Swyddog Cyfrifyddu

Comisiynydd y Gymraeg

9 Gorffennaf 2014

Statement of Financial Position as at 31 March 2014

117

	Notes	31 March 2014		31 March 2013	
		£000	£000	£000	£000
Non-current assets					
Intangible assets	7	69		60	
Property, plant & equipment	8	117		172	
Total non-current assets			186		232
Current assets					
Trade and other receivables	9	128		147	
Cash and cash equivalents	10	1,080		834	
Total current assets			1,208		981
Total assets			1,394		1,213
Current liabilities					
Trade and other payables	11	(168)		(192)	
Total current liabilities			(168)		(192)
Non-current assets plus net current assets			1,226		1,021
Non-current liabilities					
Provisions	12	(615)		(167)	
Total non-current liabilities			(615)		(167)
Assets less liabilities			611		854
Taxpayers' equity					
General reserve			611		854
			611		854

The notes on pages 122 to 153 form part of these accounts.

The financial statements on pages 114 to 121 were approved by the Accounting Officer and signed by:

Meri Huws

Accounting Officer
Welsh Language Commissioner

9 July 2014

Datganiad Llifoedd Ariannol
am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014

118

	Nodiadau	2013–14 £000	2012–13 £000
Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant net		(4,347)	(3,570)
Amortiddiad ar asedau anghyfyrrdadwy	7	28	17
Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau	8	57	67
Colled ar werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol		—	7
Cynnydd mewn darpariaethau	12	448	167
Lleihad / (Cynnydd) mewn derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill	9	19	(15)
(Lleihad) / Cynnydd mewn taliadau masnach a thaliadau eraill	11	(24)	43
(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu		<u>(3,819)</u>	<u>(3,284)</u>
Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		4	5
Taliad i gaffael asedau anghyfyrrdadwy	7	(37)	(22)
Taliad i gaffael eiddo, offer a pheiriannau		(3)	(77)
Derbyniadau am werthiant eiddo, offer a pheiriannau		1	1
(All-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi		<u>(35)</u>	<u>(93)</u>
Llifoedd arian o weithgareddau cyllido			
Cyllido gan Weinidogion Cymru		4,100	4,100
Cyllido net		<u>4,100</u>	<u>4,100</u>
Cynnydd net mewn arian parod ac arian cywerth			
Arian parod ac arian cywerth ar ddechrau'r cyfnod	10	834	111
Arian parod ac arian cywerth ar ddiwedd y cyfnod	10	<u>1,080</u>	<u>834</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 122 i 153 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Statement of Cash Flows for the year ended 31 March 2014

119

	Notes	2013–14 £000	2012–13 £000
Cash flows from operating activities			
Net expenditure		(4,347)	(3,570)
Amortisation of intangible assets	7	28	17
Depreciation of property, plant & equipment	8	57	67
Loss on sale of non-current assets		—	7
Increase in provisions	12	448	167
Decrease / (Increase) in trade and other receivables	9	19	(15)
(Decrease) / Increase in trade payables and other payables	11	(24)	43
Net cash (outflow) from operating activities		<u>(3,819)</u>	<u>(3,284)</u>
Cash flows from investing activities			
Interest received		4	5
Purchase of intangible assets	7	(37)	(22)
Purchase of property, plant and equipment		(3)	(77)
Proceeds of disposal of property, plant and equipment		1	1
Net cash (outflow) from investing activities		<u>(35)</u>	<u>(93)</u>
Cash flows from financing activities			
Financing from Welsh Ministers		4,100	4,100
Net financing		<u>4,100</u>	<u>4,100</u>
Net increase in cash and cash equivalents in the period			
Cash and cash equivalents at the beginning of the period	10	834	111
Cash and cash equivalents at the end of the period	10	<u>1,080</u>	<u>834</u>

The notes on pages 122 to 153 form part of these accounts.

**Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr
ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014**

120

	£000
Balans ar 1 Ebrill 2012	319
Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2012–13 (Diffyg) a gadwyd	(3,565)
Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2012–13	(3,565)
Cyllido gan Weinidogion Cymru	4,100
Balans ar 31 Mawrth 2013	854
Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2013–14 (Diffyg) a gadwyd	(4,343)
Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2013–14	(4,343)
Cyllido gan Weinidogion Cymru	4,100
Balans ar 31 Mawrth 2014	611

Mae'r nodiadau ar dudalennau 122 i 153 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Caiff y Comisiynydd, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Adran 9, ddarparu cymorth i unigolyn mewn achos cyfreithiol gwirioneddol neu achos cyfreithiol posibl yng Nghymru a Lloegr sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef. Nid oes cyllideb wedi ei dyrannu gan Weinidogion Cymru ar gyfer y cymorth. Yn dilyn trafodaethau penderfynwyd yn ystod y blynyddoedd cyntaf y byddai'n briodol i Gomisiynydd y Gymraeg adeiladu cronfa wrth gefn o danwariant y gyllideb flynyddol.

**Statement of Changes in Taxpayers' Equity
for the year ended 31 March 2014**

121

	£000
Balance at 1 April 2012	319
Changes in Reserves for 2012–13	
Retained (Deficit)	(3,565)
Total recognised income and expense for 2012-13	(3,565)
Financing from Welsh Ministers	4,100
Balance at 31 March 2013	854
Changes in Reserves for 2013–14	
Retained (Deficit)	(4,343)
Total recognised income and expense for 2013–14	(4,343)
Financing from Welsh Ministers	4,100
Balance at 31 March 2014	611

The notes on pages 122 to 153 form part of these accounts.

The Commissioner may provide, under the Welsh Language (Wales) Measure 2011 Section 9, an individual with assistance for actual or possible legal proceedings in England and Wales that are relevant to a matter in respect of which the Commissioner has a function. No budget has been allocated by Welsh Ministers for this assistance. Following discussions it was decided during the initial years it would be appropriate for the Welsh Language Commissioner to build a reserve from annual under spending of budget.

Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â Government Financial Reporting Manual (FReM) 2013–14 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, ac unrhyw Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r polisiau cyfrifyddol a gynhelir yn y FReM yn gweithredu Egwyddorion Adnodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), wedi eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddol, dewiswyd y polisi cyfrifyddol a ystyrir fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau neilltuol Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn rhoi barn gywir a theg. Disgrifir isod y polisiau neilltuol a ddilynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

1. Datganiad polisiau cyfrifo

(1.1) Confensiynau cyfrifo

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbriso unrhyw eiddo, offer a pheiriannau nac unrhyw asedau anghyfyrrddadwy gan nad yw addasiadau ailbriso, ym marn y Comisiynydd, yn sylweddol.

(1.2) Cyllido

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn symiau gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwariant a dynnir wrth gyflawni'r swyddogaethau. Ystyrir y symiau hyn yn rhai ariannu ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

(1.3) Asedau anghyfyrrddadwy

Mae asedau sefydlog anghyfyrrddadwy dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Mae asedau anghyfyrrddadwy yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedau eraill. Grwpiwyd nifer mawr o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir asedau sefydlog anghyfyrrddadwy ar eu cost hanesyddol. Nid yw'r asedau sefydlog wedi eu hailbriso, gan na fyddai'r addasiadau o ailbriso yn sylweddol.

Bydd asedau sefydlog anghyfyrrddadwy yn cael eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 3 a 10 mlynedd.

(1.4) Eiddo, offer a pheiriannau

Mae eiddo, offer a pheiriannau dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Grwpiwyd nifer mawr o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir eiddo, offer a pheiriannau ar eu cost hanesyddol, gan gynnwys costau fel gwaith gosod y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod â nhw i'r cyflwr gweithio ar gyfer eu defnydd arfaethedig. Nid yw eiddo, offer a pheiriannau wedi eu hailbriso, gan na fyddai'r addasiadau o ailbriso yn sylweddol.

Bydd eiddo, offer a pheiriannau yn cael eu dibrisio drwy randaliadau cyfartal blynyddol dros hyd y les, neu eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig, rhwng 36 a 90 mis.

**Notes to the accounts
for the year ended 31 March 2014**

These financial statements have been prepared in accordance with the 2013–14 Government Financial Reporting Manual (FReM) issued by HM Treasury, and any Accounts Direction issued by Welsh Ministers, with the consent of the Treasury. The accounting policies contained in the FReM apply International Financial Reporting Standards (IFRS) as adapted or interpreted for the public sector context. Where the FReM permits a choice of accounting policy, the accounting policy which is judged to be most appropriate to the particular circumstance of the Welsh Language Commissioner, for the purpose of giving a true and fair view, has been selected. The particular policies adopted by the Welsh Language Commissioner are described below. They have been applied consistently in dealing with items that are considered material to the accounts.

1. Statement of accounting policies

(1.1) Accounting conventions

The accounts have been prepared under the historical cost convention. The Commissioner did not re-value any property, plant and equipment or intangible assets as any revaluation adjustments were not, in the Commissioner's opinion, material.

(1.2) Funding

The Welsh Language Commissioner receives amounts in respect of expenditure incurred in carrying out functions. These amounts are regarded as financing and are credited to the General Reserve on receipt.

(1.3) Intangible assets

Intangible assets in excess of £1,000, including irrecoverable VAT, are capitalised. Intangible assets include software licences and other licences. Large numbers of the same type of asset have been grouped together in determining if they fall above or below the threshold.

Intangible assets are included at their historical cost. Intangible assets have not been revalued, given that revaluation adjustments are not material.

Intangible assets are amortised in equal annual instalments over their estimated useful economic lives, between 3 and 10 years.

(1.4) Property, plant and equipment

Property, plant and equipment over £1,000, including irrecoverable VAT, are capitalised. Large numbers of the same type of asset have been grouped together in determining if they fall above or below the threshold.

Property, plant and equipment are included at their historical cost including costs, such as installation costs, that can be directly attributed to bringing them to their required location and condition. Property, plant and equipment have not been revalued, given that revaluation adjustments are not material.

Property, plant and equipment are depreciated in equal annual instalments over the term of the lease or their estimated useful economic lives, between 36 and 90 months.

(1.5) Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol pan fydd gan Gomisiynydd y Gymraeg rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a bod tebygrwydd y bydd angen all-lif o fudd economaidd i dalu'r rhwymedigaeth.

(1.6) Treth ar Werth

Nid yw Comisiynydd y Gymraeg wedi cofrestru ar gyfer Treth ar Werth. Adroddir ar bob gwariant a chyfalaf gan gynnwys TAW, os yw'n berthnasol, gan na ellir adennill TAW.

(1.7) Pensiynau

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Pensiwn y Gwasanaeth Sifil am bensiynau a buddiannau tebyg i bersonau a gyflogir gan y Comisiynydd ac am gostau gweinyddol sydd i'w priodoli i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni.

Mae gweithwyr cyfredol a blaenorol yn dod o dan ddarpariaethau cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Nodyn 4 (Niferoedd swyddogion a chostau perthnasol).

(1.8) Grantiau dyledus

